Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Maria Jones (Groes) a'r teulu i gyd ym marwolaeth ei brawd, David Thomas Jones o Rhuthun. Hyderwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt yn y brofedigaeth hon eto, ac y cânt adnabod flas y tangnefedd na ŵyr y byd amdano. Gweddïwn y bydd pawb sy'n galaru am anwyliaid yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.

Cofiwn hefyd am y cleifion yn ein plith. Mae Morfudd Jones (Llannefydd) a Dilys Roberts (Henllan) yn cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, tra bod Gwilym Davies (Llansannan) ac Eurgain Pierce (Llannefydd) yn cael gofal yn yr Inffirmari. Treuliodd Trefor Roberts (Llansannan) ychydig ddyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd. Diolchwn am y gofal y maen nhw wedi ac yn ei dderbyn, a gweddïwn y bydd Duw yn eu hamgylchynu â thrugaredd a daioni.

Llongyfarchiadau i Gruffydd Roberts (Cefn Berain) ar ei ddyweddïad â Gwawr Heledd Jones. Dymunwn yn dda i'r ddau ohonynt, a gweddïwn fendith Duw ar eu perthynas.

Wythnos Weddi EBC: Mai 20fed–26ain (Llun–Sul)

Bydd yr Wythnos Weddi yn gyfnod y bydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn plygu ei phen ac yn codi ei llais fel un. Am y saith diwrnod, byddwn yn uno yn ein pryderon a'n beichiau ar gyfer dyfodol ein gwlad a'n byd. O ystyried cyflwr ysbrydol ein cenedl a thensiynau gwleidyddol ein byd, mae gwir angen i ni uno mewn gweddi. Wrth wraidd yr Wythnos Weddi, bydd dau Gyfarfod Gweddi Cenedlaethol ar y nos Lun (20fed) a'r nos Iau (23ain). Bydd y ddau gyfarfod yn gyfle i'r eglwys gyfan ymuno â'i gilydd mewn gweddi. Ar y dydd Llun, byddwn yn gallu ymgynnull mewn canolfannau dynodedig o amgylch Cymru, drwy ZOOM. Bydd y cyfarfod gweddi dydd Iau yn cael ei gynnal yn gyfan gwbl ar ZOOM, boed o'ch cartrefi neu hynny o unrhyw fan arall lle mae Wi-Fi ar gael. Mae croeso i blant a phobl ifanc i ymuno yn yr wythnos. Mae nifer o adnoddau yn ogystal â ffilmiau i helpu unigolion ac eglwysi i wneud y gorau o'r Wythnos Weddi i'w cael ar wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru (https://www.ebcpcw.cymru/cy/wythnos-o-weddi-cenedlaethol-eglwys-bresbyteraidd-cymru/). Da ni bellach yn byw mewn cyfnod tra gwahanol, gyda heriau gwahanol, ond mae gweddi – a oedd yn sail i bopeth a wnaeth ein hynafiaid – mor berthnasol heddiw ag erioed. Rhaid inni weddïo! Mae'n byd mewn trafferthion enfawr a'n cenedl fach ni heb obaith. Felly, er ein lles ein hunain, mae'n rhaid inni weddïo. Dywedodd Iesu, "Beth bynnag a ofynnwch yn fy enw, hyn a wnaf, fel y gellir gogoneddu'r Tad yn y Mab. Os gofynnwch unrhyw beth i mi yn fy enw i, fe'i gwnaf" (Ioan 14:13,14). Yn ystod yr Wythnos Weddi, gadewch inni dderbyn y gwahoddiad hwn i ymuno ag Ef mewn gweddi, i lunio dyfodol ein heglwys, ein cenedl a'n byd.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 5 Mai 2024

eglwysibroaled.com rhaglendorcas.com llanw.org

Craig yr Undeb

Saif Craig yr Undeb o fewn tafliad carreg i bont Pen Llyn ac o fewn clyw i'r tylluanod a glywodd Williams-Parry o Lwyncoed Cwm-y-Glo. Yng nghanol eu brwydr am well cyflog ac amodau gwaith, wrth y graig hon yr arferai chwarelwyr Dyffryn Peris gyfarfod cyn ac wedi sefydlu Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru ym 1874, ac wedi hynny pan fyddai streic yn y chwareli. Daeth yn fan cyfarfod i'r chwarelwyr am ei bod ar dir nad oedd yn eiddo i berchnogion y gwaith.

Arferwn fynd heibio iddi bob dydd ar y ffordd i'r ysgol uwchradd, ond caewyd y darn o'r ffordd ar lan Llyn Padarn sy'n mynd heibio iddi ddeugain mlynedd yn ôl. Mae modd gweld y Graig o'r ffordd newydd gerllaw; ond i'w gweld yn iawn, rhaid mynd am dro ar hyd yr hen ffordd sydd bellach yn rhan o Lôn Las Peris. Wêl yr anghyfarwydd ddim byd arbennig am y graig neu'r bryncyn, ond daw'r sawl sy'n oedi wrth y llechen a'r arwydd sy'n adrodd ei hanes yn ymwybodol o arwyddocâd y lle i hanes y Dyffryn a'i weithwyr.

'Arwain fi at graig sy'n uwch na mi', meddai'r Salmydd (Salm 61:2). Ac adleisio'r adnod a wna Morswyn wrth ganu:

'Arglwydd Iesu, arwain f'enaid
At y Graig sydd uwch na mi ...' (Emyn 740 yn Caneuon Ffydd).

Ond wêl yr anghyfarwydd ddim o werth yn y graig honno chwaith. Dim ond y sawl sy'n oedi wrth fryncyn rhagorach, bryncyn Calfaria, a wêl mai Duw a Christ yw 'Craig yr Oesoedd'; y 'graig safadwy' a'r 'graig a ddeil yng ngrym y lli'.

Gwibio heibio i Graig yr Undeb ar hyd y ffordd newydd a wna'r rhelyw, yn bobl leol ac ymwelwyr. Ond mae rhai yn oedi. A'r Sadwrn o'r blaen, cafwyd gorymdaith ati i ddathlu 150 mlwyddiant sefydlu'r Undeb. Rhywsut, gwibio heibio i Graig yr Oesoedd a wna'r rhelyw yng Nghymru heddiw, heb sylwi ar gadernid Duw na phrydferthwch Crist, er bod rhai ohonynt o bosib yn cofio y bu yma unwaith sôn am Greawdwr a Gwaredwr. Ond trwy ras Duw, mae rhai o hyd yn cerdded yr hen ffordd sydd wastad yn newydd, gan oedi i syllu ar Grist y groes a'r bedd gwag. Mae rhai o hyd yn dod ato mewn ffydd, gan ymateb i anogaeth Morgan Rhys ac Eseia 42:11, 'O caned preswylwyr y Graig'. Ac mewn gwirionedd, onid Crist yw gwir Graig yr Undeb sy'n ein huno ni â Duw?

Y Parch. John Pritchard

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Mai 5ed

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yn Llanfair** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Robinson. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan. Hefyd, yn dilyn yr oedfa yn Llansannan, bydd cyfarfod byr i newid swyddogion y Gymdeithas. Dewch â syniadau newydd ar gyfer rhaglen y tymor nesaf, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad Mr Alun Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:30 ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa yn Groes.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn (a phob pnawn Sul arall).

Dydd Mawrth, Mai 7fed

- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 7:30 yr hwyr.

Dydd Iau, Mai 9fed

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes eraill am ymuno, plîs cysylltwch ag Anti Olwen (07359 154228).

Dydd Gwener, Mai 10fed

- **Paned a Sgwrs Llansannan –** Bydd y criw yn ymweld â Chapel Waengoleugoed. Enwau i Sian (870230) erbyn dydd Sul, Mai 5ed, os gwelwch yn dda.

Dydd Sul, Mai 12fed

- **Oedfa yn Saron** am 10:00 o dan arweiniad y Parch. Alan Spencer.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Llanfair** am 10:00.
- **Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yng Nghapel Llannefydd** am 10:00. Bydd Llinos Roberts yn dod draw a bydd paned a chacen i ddilyn.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghefn Meiriadog** am 10:30 gyda'r casgliad yn mynd tuag at waith Cymorth Cristnogol.
- **Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yn Eglwys Llansannan** am 11:00. Os byddwch am gyfrannu tuag at waith Cymorth Cristnogol, bydd amlenni ar gael yn yr Eglwys, yng Nghapel Coffa Henry Rees, ac yn y siop. Gofynnir yn garedig i chi gyfrannu cyn diwedd mis Mai, os gwelwch yn dda.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol yn Eglwys Henllan** am 11:00.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Nantglyn** am 2:00.

Dydd Llun, Mai 13eg

- **Clwb Plant Pant Pastynog** o 3:00-4:00 y pnawn o dan ofal tîm Bro Dinbych.
- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** 'Grym Gweddi' o dan arweiniad gweithwyr Dorcas am 7:00 yr hwyr. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. Cysylltwch â'r swyddfa i gael y ddolen i gysylltu (01678 520565 / eirian.roberts@ebcpcw.cymru).

Dydd Mawrth, Mai 14eg

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Mercher, Mai 15fed

- **Grŵp Gweinidogaeth y Gair a'r Sacramentau** yn cyfarfod yn Festri Capel Cefn Meiriadog am 7:00 yr hwyr.

Dydd Iau, Mai 16eg

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes eraill am ymuno, plîs cysylltwch ag Anti Olwen (07359 154228).

Dydd Sul, Mai 19eg

- **Oedfa Gymun yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yn Llannefydd** am 11:00 o dan arweiniad Mr Dewi Williams. Bydd Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:00 a'r Ysgol Sul yn cydredeg â'r oedfa yn Llannefydd.
- **Oedfa'r Fro yng Nghapel Henllan** am 6:00 yr hwyr gydag Eryl Davies yn arwain a'r Parch. John Pritchard yn pregethu.

Rhaghysbysiad

- **Wythnos o Weddi Cenedlaethol Eglwys Bresbyteraidd Cymru –** Cyfarfod Gweddi i'r enwad cyfan, mewn 21 canolfan trwy Gymru nos Lun Mai 20fed o 19:00 – 20:00. Y ganolfan leol i ni fydd **Festri Capel Cefn Meiriadog**. Croeso i bawb. *(Mwy o fanylion dros y dudalen.)*
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd –** Bydd yr eisteddiad nesaf **nos Fercher, Mai 22ain** yng Nghapel Y Fron, Dinbych am 6:30 yr hwyr *(sylwch ar yr amser a'r newid dyddiad)*. Ni fydd Cyfarfod Gwobrwyo'r Ysgol Sul eleni.
- **Taith Gerdded Flynyddol Cymdeithas Lenyddol Henllan** nos Wener, Mai 24ain.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (15fed), os gwelwch yn dda.